# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Lesley Walton | Adran Etholiadol: | Townhill |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

1) Rwyf wedi parhau i ymdrin â materion gwaith achos wrth iddynt godi, gan gysylltu â swyddogion y cyngor etc, ac rwyf bob amser yn mynd yn ôl at etholwr i roi gwybod iddo am y canlyniad.
2) Rwyf wedi llwyddo i roi gwelliannau ar waith ar draws y ward megis;
   i) ffensys i atal tipio anghyfreithlon ar gornel Heol Granogwen a Heol Tegid
   ii) symud y llinellau cyffordd ar gornel Rhodfa Dyfed a Chilgant Myrddin i gefnogi diogelwch ffyrdd
   iii) gosod pyst pren i orffen y ffens ar hyd Heol Pantycelyn
3) Rwyf hefyd wedi parhau i lunio cylchlythyron rheolaidd i'n holl breswylwyr a helpu i'w dosbarthu
4) Rwyf wedi cynnal fy nghymorthfeydd misol yn rheolaidd, wedi cyflenwi dros dro i fy nghydweithwyr fel bo'r angen ac wedi cynnal cymorthfeydd stryd niferus yn cynnig cymorth a chyngor i breswylwyr.
5) Rwyf yn parhau i wasanaethu fel Llywodraethwr ALl yn Ysgol Gymunedol Dylan Thomas. Rwyf yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chyfarfodydd ychwanegol fel bo'r angen, digwyddiadau ysgol megis y Cyngerdd Nadolig ynghyd â darparu cyngor a chefnogaeth a bod yn gyswllt rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 6 | / | 10 | 60 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 16 | 94 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| **Cyffredinol** | **44** | **/** | **55** | 80 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Gweithgor Cynhwysiad Digidol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **Cyffredinol** | **1** | **/** | **1** | **100** | **%** |

Dangosir uchod % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

1) Yn ogystal â phwyllgorau'r cyngor, rwyf wedi parhau i fod yn aelod o gyrff allanol amrywiol a/neu eu cefnogi: Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y Gorllewin), Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol yr Hill, y ddau wedi'u lleoli yng Nghanolfan y Ffenics, a Thŷ TOPIC.

2) Fel cynullydd, cadeiriais y gweithgor craffu ar Gynhwysiad Digidol a oedd yn edrych ar sut i sicrhau y gall ein holl ddinasyddion gael mynediad i wasanaethau heb gael eu heithrio wrth i ni ddefnyddio TG yn fwyfwy.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Yn ogystal â'm cyd-gynghorwyr ward, rwyf wedi
- defnyddio ein cyllideb gymunedol i blannu blodau gwyllt ar draws y ward unwaith eto
- bod yn llwyddiannus wrth sefydlu Ffrindiau 'Llyn' Golchi Mayhill a Gardd Fwyd Gymunedol sy'n croesi'r ffin â ward y Castell. Mae hyn yn parhau i gynnwys Cymunedau'n Gyntaf, cynghorwyr ward y Castell a phreswylwyr lleol sy'n cadw'r ardal bicnic o gwmpas y llyn ger Rhodfa Nicander yn glir o sbwriel a thipio anghyfreithlon a chreu gardd fwyd ar waelod y tyle ger Heol North Hill
- cysylltu â PCYDDS a datblygwyr arfaethedig safle Campws Townhill
- neilltuo peth o'n cyllideb gymunedol er mwyn adfywio'r ardal chwarae ger y ganolfan feddygol ar Heol Mayhill

Rwyf hefyd wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau untro gan gynnwys;
- cyfarfod defnyddiol iawn o Fforwm Ffrindiau Abertawe
- Diwrnod y Lluoedd Arfog ysbrydoledig yn Sgwâr y Castell
- ymweld â Mosg Abertawe ar ei ddiwrnod agored cenedlaethol

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

1) Mewn swyddi blaenorol, rwyf wedi dysgu llawer fel athro, ymgynghorydd a dirprwy reolwr yn CAB, a swyddog tai, i'm cynorthwyo wrth ymdrin â phreswylwyr yn gyffredinol ac yn benodol wrth drin gwaith achos preswylwyr yn sensitif ac yn effeithiol.
2) Derbyniais hyfforddiant gyda'r Pwyllgor Archwilio ar y Fframwaith Gwybodaeth Sgiliau ar 14/06/16.
Rwyf hefyd wedi defnyddio fy hyfforddiant ar Adran 106 Cytundebau Cynllunio er mwyn gwella'r broses fonitro a sicrhau bod y cyngor yn derbyn y swm llawn y cytunwyd arno gan y datblygwr mewn da bryd.
3) Hefyd, derbyniais hyfforddiant data ar 22/11/16 yn fy rôl fel llywodraethwr ysgol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi parhau i
1) gysylltu â'r undeb credyd lleol LASA er mwyn parhau i hyrwyddo LASA ei hun a dewisiadau eraill yn hytrach na dewis usuriwr cyfreithlon neu anghyfreithlon.
2) cefnogi banc bwyd Eastside gyda chyfraniad rheolaidd yn ogystal ag annog cynghorwyr eraill i gyfrannu
Rwyf hefyd wedi ymuno â'r côr cymunedol, Voices on the Hill, sydd wedi perfformio nifer o weithiau, gan gynnwys yn Sgwâr y Castell ym mis Mawrth eleni yn y digwyddiad Our Abertawe: Dathlu Abertawe Gyda'n Gilydd.

Gweler y blog yn lesleywaltoncouncillor@blogspot.com

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 29.10.17 |